

07/01/2022

Annwyl Rieni / Ofalwyr

### Trefniadau Tymor Newydd

Bydd pob myfyriwr yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Llun Ionawr 10<sup>fed</sup> ac wrth i'r ysgol ailagor, roeddwn i'n awyddus i'ch diweddarau ar y ffordd y byddwn ni'n gweithio yn nhymor y gwanwyn, ac i dynnu sylw at rai newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a fydd yn effeithio ar bawb ohonom.

1. Gorchuddion wyneb:

Fel y digwyddodd ar ddiwedd y tymor diwethaf, dylai pob myfyriwr oedran uwchradd wisgo gorchuddio wyneb ym mhob ardal dan do, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, lle na ellir cadw pellter corfforol. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gludiant ysgol.

2. Profion Llif Unffordd:

Argymhellir y dylai holl staff a myfyrwyr ysgolion uwchradd brofi dair gwaith yr wythnos cyn dod i'r ysgol gan ddefnyddio LFT (nos Sul/bore Llun, nos Fawrth/bore Mercher a nos Iau/bore Gwener) a chofnodi eu canlyniadau ar-lein [Report a COVID-19 rapid lateral flow test result - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk). Os nad ydych eto wedi rhoi caniatâd i'ch plentyn dderbyn profion LFT gennym a'u defnyddio yn unol â hynny, cysylltwch â'r tîm bugeiliol a fydd yn rhoi'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnoch, neu fel arall, gallwch roi eich caniatâd trwy glicio ar y ddolen briodol ar ein gwefan yma: <https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/covid-19-lft-testing>.

3. Ynysu ar gyfer achosion C19 positif:

Ar 05/01/22 nododd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **na fydd y rhai nad ydynt yn dangos unrhyw symptomau ond sydd â phrawf llif unffordd positif yn cael eu cynghori i gael prawf PCR dilynol** oni bai eu bod yn cael eu cynghori i wneud hynny gan Brofi, Olrhain a Diogelu. **Fodd bynnag, os oes gan unrhyw fyfyrwr symptomau COVID-19, dylent archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl.** Yn y naill achos neu'r llall, dylai myfyrwyr sy'n cael canlyniad prawf positif hunan-ynysu. Mae'r cyfnod ynysu yn parhau i fod yn 10 diwrnod, ond os yw eich plentyn yn cofnodi profion llif unffordd negatiff ar ddiwrnod 6 a diwrnod 7 o'r cyfnod ynysu, gallant orffen eu hynysu yn gynnar ar ddiwrnod 8 (a dychwelyd i'r ysgol).

4. Cysylltiadau yn y cartref:

Fel y gwyddoch, rydym wedi gofyn o'r blaen i fyfyrwyr sydd wedi bod mewn cysylltiad ag aelodau o'u cartef sydd wedi profi'n positif ar gyfer Covid 19 aros i ffwrdd o'r ysgol yn ystod y cyfnod ynysu. Y tymor hwn, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rydym yn gofyn i fyfyrwyr sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ag aelodau o'r cartref sy'n profi'n positif i gwblhau prawf llif unffordd dyddiol am gyfnod o 7 diwrnod. Cyn belled â bod y profion hyn yn parhau i fod yn negatiff, gall eich plentyn barhau i fynychu'r ysgol.

5. Cysylltiadau agos yn yr ysgol:

Os oes pump neu fwy o achosion Covid 19 positif yn cael eu nodi o fewn grŵp blwyddyn, gellir argymhell cymryd prawf LFT bob dydd, i geisio cynnwys lledaeniad y firws. **Byddwn yn cysylltu â chi trwy ebost os yw'n ofynnol i'ch plentyn wneud hyn.**

6. Dysgu Ar-lein:

Os yw nifer yr achosion mewn grŵp blwyddyn penodol yn parhau i godi y tu hwnt i hyn, neu os yw cyfran uchel o'r staff yn contractio'r firws ar unrhyw un adeg, gallwn ofyn i blant mewn grŵp blwyddyn unigol weithio gartref, ar-lein, am gyfnod o un wythnos ysgol. Byddwn yn gofyn i chi wneud hyn dim ond fel dewis olaf, and os gwnawn hynny, bydd darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr allweddol a'r rhai sydd angen cefnogaeth addysgol benodol yn yr ysgol. Bydd cefnogaeth ariannol hefyd ar gael i'r myfyrwyr hynny sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, ac rydym hefyd yn gallu darparu adnoddau i gefnogi dysgu ar-lein os nad oes gan fyfyrwr fynediant iddynt gartref.

Rwy'n siŵr y byddwch yn gwerthfawrogi pa mor heriol y mae'r cyfnod hwn yn parhau i fod i gymuned yr ysgol, ond gobeithio yn bydd y crynodeb hwn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os oes arnoch angen unrhyw gefnogaeth benodol ar gyfer eich plentyn wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Gyda llawer o ddiolch a dymuniadau gorau am flwyddyn newydd hapus,

Ian Gerrard

Pennaeth.

INSPIRE | SUPPORT | SUCCEED

YSBRYDOLI | CEFNOGI | LLWYDDO

MORFA DRIVE | ☎ +44 (0)1492 593243 | ✉ INFO@ABERCONWYCONWY.SCH.UK  
CONWY LL32 8ED | ☎ +44 (0)1492 592537 | ✉ WWW.ABERCONWYCONWY.SCH.UK

 BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE